Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# Datganiadau Ariannol PCDDS 2021/2022

# Datganiad Tryloywder

Trawsnewid Addysg; Trawsnewid Bywydau
Transforming Education; Transforming Lives

www.uwtsd.ac.uk


# Incwm y Brifysgol a'r Grŵp

Mae'r Brifysgol yn elusen gofrestredig a daw ei hincwm o amrywiaeth eang o ffynonellau.

Ein ffynhonnell incwm fwyaf yw ffioedd dysgu a delir gan fyfyrwyr, a ategir gyda chyllid a geir gan CCAUC.

Mae'r Brifysgol hefyd yn cynhyrchu incwm masnachol o nifer o ffynonellau gan gynnwys ei llety, cyfleusterau cynadledda a dyfarniadau grant masnachol.

Mae incwm cyfunol y grŵp yn cynnwys cyllid llywodraeth ar gyfer darpariaeth AB drwy ddau goleg AB, cyllid ar gyfer cyflenwi hyfforddiant iaith Gymraeg ac incwm masnachol o rentu eiddo a gweithgynhyrchu uwch




# Gwariant Gweithredu'r Brifysgol a'r Grŵp

Eir i gostau am amrywiol resymau, gan sicrhau bob amser bod y myfyrwyr wrth galon popeth a wnawn.

Fel sy'n gyffredin ledled y sectorau AU, costau staff yw ein gwariant mwyaf.

Mae gwariant nad yw'n gyflogau'n cynnwys pob agwedd ar y Brifysgol, o gynnal yr ystâd, darparu cymorth academaidd a darparu'r gwasanaethau canolog sy'n angenrheidiol i alluogi cyflenwi ein gweithgaredd addysgu.

Mae Undeb y Myfyrwyr yn gorff annibynnol ac ni adlewyrchir costau rhedeg Undeb y Myfyrwyr yng nghyfrifon y Brifysgol. Rhoddodd y Brifysgol grant o £850,000 yn ystod y flwyddyn i gynorthwyo gyda chostau rhedeg Undeb y Myfyrwyr.



# Defnydd o Ffioedd Dysgu'r Brifysgol

Caiff ffioedd dysgu myfyrwyr israddedig llawn amser eu capio ar £9,000 y flwyddyn ym mhob SAU yng Nghymru.


Mae'r Brifysgol yn defnyddio ei holl ffrydiau incwm i gyflawni ei chenhadaeth graidd a darparu'r seilwaith canolog sydd ei angen i gefnogi'r gwaith cyflenwi hwn.

Yn 2021/2022 cafodd 87% o holl incwm ffioedd y Brifysgol ei ail-fuddsoddi'n uniongyrchol i gefnogi myfyrwyr gyda 11% yn cefnogi ystâd y Brifysgol a 2% yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r seilwaith canolog.

Mae'r Brifysgol yn buddsoddi'r rhan fwyaf o'i hincwm er mwyn darparu'r amgylchedd addysgu gorau bosibl i'w myfyrwyr gyda 62.67% o'r holl incwm ffioedd dysgu'n cael ei fuddsoddi mewn costau addysgu uniongyrchol a chostau lles myfyrwyr.

**Sut y caiff Ffioedd Dysgu eu Gwario (Costau'r Brifysgol)**

| | Costau Staff £'000 | Costau nad ydynt yn Gyflogau £'000 | Cyfanswm Costau £'000 |
|---|---|---|---|
| Costau Uniongyrchol Addysgu | 35,998 | 7,750 | **43,748** |
| Costau Cymorth Addysgu | 6,232 | 9,116 | **15,348** |
| Cyfleusterau Staff a Myfyrwyr | 3,122 | 2,426 | **5,548** |
| Lles Myfyrwyr | | 9,772 | **9,772** |
| Costau Eiddo | | 9,259 | **9,259** |
| | **45,352** | **38,323** | **83,675** |




# Gwarged Gwaelodol a Defnydd Arian Parod y Brifysgol

Mae'r Brifysgol yn ceisio cyflawni gwarged gweithredol bob blwyddyn er mwyn darparu'r arian parod sydd ei angen ar gyfer buddsoddi yn nyfodol y Brifysgol.

Mae rhan o'r gwariant hwn yn gwasanaethu ad-daliadau dyled ar ddatblygu campws y Brifysgol sy'n gwasanaethu poblogaeth y myfyrwyr heddiw gyda gwerth uwch yn cael ei roi at welliannau presennol ac yn y dyfodol i'r ystâd a'r cyfleusterau a ddarperir i fyfyrwyr.

Fel elusen, mae'r Brifysgol yn ceisio ail-fuddsoddi'r holl incwm ar ôl talu ei chostau gan ychwanegu at brofiad y myfyriwr yn y tymor canolig.

Yn ystod 2021/2022 gwariwyd 88% o incwm y brifysgol ar weithgaredd yn ystod y flwyddyn, gwariwyd 3% ar wasanaethu dyled, gwariwyd 10% ar wariant cyfalaf gyda1% yn cael ei ddefnyddio o gronfeydd wrth gefn y grŵp a gronnwyd mewn blynyddoedd blaenorol.



# Gwarged Gwaelodol a Defnydd Arian Parod y Grŵp

Defnyddiodd perfformiad arian parod y Grŵp £15miliwn o arian parod o gronfeydd wrth gefn y Brifysgol.

Yn ystod 2021/2022 gwariwyd 87% o incwm y grŵp ar weithgaredd yn ystod y flwyddyn, gwariwyd 2% ar wasanaethu dyled, gwariwyd 8% ar wariant cyfalaf ac ychwanegwyd 3% i gronfeydd wrth gefn y grŵp i’w ddefnyddio yn y dyfodol.

